**Ken Skates AS/MS**
**Gweinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru**
**Minister for Economy, Transport and North Wales**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Your ref: P-05-998
Our ref: KS/04826/20

Janet Finch-Saunders MS
Government.Committee.Business@gov.wales

14 August 2020

Diolch am eich llythyr dyddiedig 27 Gorffennaf ar ran y Pwyllgor Deisebau ynghylch ei gwneud yn orfodol gwisgo mygydau/gorchuddion wyneb mewn siopau.

Rydym yn cadw golwg ar y sefyllfa o hyd ynghylch a ddylid gwneud gwisgo mygydau'n orfodol. Gwnaeth y Prif Weinidog ymdrin â'r mater yn ei sesiwn byw ar Facebook yr wythnos hon – y gwnaeth y BBC gyfeirio ato: https://www.bbc.co.uk/cymrufyw/53735867

Mae'r dystiolaeth yn glir o hyd mai'r ffordd orau o amddiffyn eich hun ac eraill rhag yr haint yw cadw at y rheolau cadw pellter, osgoi cyffwrdd ag arwynebau ac â'ch wyneb a golchi'ch dwylo'n rheolaidd. Ceir tystiolaeth sy'n awgrymu bod gwisgo gorchudd wyneb yn rhoi ymdeimlad ffug o ddiogelwch ac yn gwneud pobl yn llai gofalus o ran cadw pellter a golchi dwylo.

Dylid nodi serch hynny ei bod yn orfodol gwisgo gorchudd wyneb ar drafnidiaeth gyhoeddus yng Nghymru os ydych chi'n 11 oed neu fwy, heblaw am rai eithriadau. Mae'r gofyn hwn yn rhan o amrywiaeth eang o gyfyngiadau a gofynion sy'n ceisio rhwystro'r feirws rhag lledaenu, ond fe fyddwn yn ei wneud yn orfodol mewn mannau eraill os bydd y coronafeirws yn dechrau lledaenu yng Nghymru unwaith eto.

Y prif reswm dros wisgo gorchuddion wyneb ar drafnidiaeth gyhoeddus yw bod llai o le ar fysiau, trenau, awyrennau a thacsis i gymryd camau eraill i leihau'r risg o ddal y coronafeirws.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Ken.Skates@llyw.cymru
Correspondence.Ken.Skates@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Ar drafnidiaeth gyhoeddus, mae teithwyr fel arfer wedi'u cyfyngu i un sedd gydol y daith ac nid yw'n bosibl yn aml symud i osgoi teithwyr eraill.  Darllenwch y canllawiau amgaeedig: https://llyw.cymru/y-gofyniad-i-wisgo-gorchudd-wyneb-ar-drafnidiaeth-gyhoeddus-yng-nghymru

Yn gywir

**Ken Skates AS/MS**

Gweinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru
Minister for Economy, Transport and North Wales